OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3347 (Cy.307)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud - -	*12 Rhagfyr 2006*
Yn dod i rym - -	*31 Rhagfyr 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 60, 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (**1**) a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**2**) fel a ganlyn parthed blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2007.

(2) Ym mharagraff 3(1)(b) o atodlen 1, yn lle'r geiriau "other than" hyd at ddiwedd y paragraff hwnnw, rhodder "in relation to which section 47(2)(b), (ba) or (c) applies were taken into account".

(3) Ym mharagraff 2(12) o atodlen 2, yn lle "1.004" rhodder "1.001".

(4) Yn lle atodlen 4 rhodder yr atodlen a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p. 41. Cafodd y pwerau hyn eu datganoli, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1999 yn Atodlen 1.

(**2**) OS 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy.47), 2000/3382 (Cy.220), 2001/3910 (Cy.322), 2002/3054 (Cy.289), 2003/3211 (Cy.304), 2004/3232 (Cy.280) a 2005/3345 (Cy.259).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

12 Rhagfyr 2006

(**3**) 1998 p.38.